**Bwrdd Pensiwn RhCT CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**

Cofnodion cyfarfod hybrid Bwrdd Pensiwn RhCT a gynhaliwyd 17 Hydref 2022 am 10am.

**Bwrdd Pensiwn RhCT – Aelodau yn bresennol:**

Yr Athro Hugh Coombs, Cynrychiolydd y Cyflogwyr (Prifysgol De Cymru) a Chadeirydd Bwrdd Pensiwn Rhondda Cynon Taf
Ms Sindy Absalom – Cynrychiolydd yr Aelodau (gweithredol/wedi'u gohirio)
Rob Whiles – Cynrychiolydd yr Aelodau (Pensiynwyr)
David Francis – Cynrychiolydd Cyflogwyr y Bwrdd Pensiwn (Coleg y Cymoedd)

**Swyddogion yn bresennol:**

Mr I Traylor, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Pensiynau, Caffael a Thrafodion
Ms Y Keitch, Uwch Gyfrifydd – Pensiynau a Rheoli'r Trysorlys
Mrs S Handy – Swyddog Ymchwil a Materion Craffu'r Aelodau

**25 Croeso**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod, gan ddiolch i un Aelod am fynychu ar Microsoft Teams.

**26 DATGANIAD O FUDDIANT / GWRTHDARO BUDDIANNAU / CYFRINACHEDD**

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, doedd dim datganiadau o fuddiant ynglŷn â'r agenda.

**27 COFNODION CYFARFOD Y BWRDD PENSIWN A CHOFNODION CYFARFOD PWYLLGOR Y GRONFA BENSIWN**

Cafodd cofnodion cyfarfod Bwrdd Pensiwn RhCT ar 11 Gorffennaf 2022 eu **CYMERADWYO** yn rhai cywir.

**28 Materion sy'n Codi:**

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Pensiynau, Caffael a Thrafodion yr wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau'r Bwrdd o ganlyniad i gofnodion y cyfarfod ym mis Gorffennaf 2022:

Materion sy'n codi

- Tudalen 4: Cyflwyniad McCloud. Yr Adran TG i'w ail-anfon at Aelodau'r Bwrdd
- Tudalen 4: Cafwyd sicrwydd i'r Bwrdd gan yr Adran TG unwaith eto nad yw'r Cyngor yn buddsoddi mewn cwmnïau arfau
- Cyfeiriodd Aelod at wefan Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi ynghylch cymorth ariannol ehangach i aelodau ein cynllun, gan holi a fyddai modd i ni ystyried cyfeirio tebyg ar wefan y Gronfa Bensiwn

Diolchodd y Cadeirydd i Rob Whiles am gadeirio'r cyfarfod diwethaf yn ei absenoldeb.

**Cofnodion Pwyllgor y Gronfa Bensiwn**

Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Caffael a Phensiynau wrth Aelodau'r Bwrdd fod cyfarfod y Pwyllgor Pensiynau ar 10 Hydref wedi'i ohirio oherwydd diffyg cworwm. Cafodd y Bwrdd wybod hefyd y byddai'r Cynghorydd R. Evans yn rhoi'r gorau i'w lle ar y Pwyllgor, ac y byddai angen rhywun newydd i gymryd eu lle. Cafodd y Bwrdd wybod fod cyfarfod y Pwyllgor wedi'i aildrefnu'n brydlon ar gyfer 28 Hydref.

**29 PANEL YMGYNGHORI – BUDDSODDI A GWEINYDDU**

Cafodd y Bwrdd ddiweddariad mewn perthynas â chofnodion cyfarfod y Panel Ymgynghorol – Buddsoddi a Gweinyddu Cronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf a gafodd ei gynnal ar 28 Medi 2022.

Dywedodd yr Uwch Gyfrifydd – Pensiynau a Rheoli'r Trysorlys fod gwerth cyffredinol y Gronfa wedi gostwng o £4,510 miliwn (31 Mawrth 2022) i £4,108 miliwn (30 Mehefin 2022). Enillion cyffredinol y Gronfa Bensiwn ar gyfer y chwarter a ddaeth i ben 30 Mehefin 2022 oedd -13.2%, yn erbyn meincnod penodol y cynllun, sef -5.3%.

Er gwaethaf effaith yr ansicrwydd economaidd ehangach ac ansefydlogrwydd y farchnad ers mis Mawrth 2022, cafodd Aelodau’r Bwrdd eu hatgoffa o ffigurau cyflawniad tair blynedd cadarnhaol rheolwyr Gweithredol. Hefyd, cafodd yr Aelodau eu cyfeirio at ffigurau cyflawniad CRBE a Baillie Gifford.

Cafwyd trafodaeth ynglŷn â pharagraff 3.6 ac ail-gydbwyso ac addasu, ac roedd Aelodau'r Bwrdd am nodi bod Bwrdd Pensiwn RhCT yn cefnogi dull mwy gweithredol.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth ddiweddariad i'r Bwrdd mewn perthynas â dau daliad cyfraniad y Cyflogwr hwyr a ddaeth i law. Ystyriodd y Bwrdd yr amgylchiadau, gan gytuno â chasgliad y Panel nad oedd y rhain yn gyfystyr â thorri amodau sylweddol y dylid rhoi gwybod i'r Rheoleiddiwr Pensiynau amdanyn nhw. Roedd y Bwrdd yn fodlon bod y

camau a gymerwyd yn briodol yn yr achos hwn.

Cafodd y Bwrdd ddiweddariad ar y cynnydd a wnaed tuag at gwblhau Adroddiad Blynyddol y Gronfa a oedd wedi'i gynnwys, a chawsant ddiolch am eu cyfraniad iddo.

Roedd y Bwrdd wedi cydnabod cyhoeddiad llwyddiannus Datganiadau Buddion Blynyddol i aelodau'r cynllun cyn y terfyn amser statudol, gan ddiolch i'r garfan am gyrraedd y garreg filltir flynyddol hollbwysig hon unwaith eto.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth fod ymarfer Prisio Tair Blynedd 2022 yn mynd rhagddo yn unol â'r amserlen y cytunwyd arni. Roedd yn rhagweld y byddai canlyniadau dangosol ar gael yn ystod mis Hydref.

Yna cyfeiriwyd Aelodau o'r Bwrdd at y cyflawniad yn erbyn safonau gwasanaeth allweddol y Gronfa, a'r weithdrefn datrys anghydfodau mewnol. Roedd y Bwrdd wedi cydnabod llwyth gwaith y Gronfa, yn ogystal â chefnogi’r flaenoriaeth barhaus i ddatblygu staff a chynnal adolygiad o adnoddau, yn enwedig o ystyried yr heriau ehangach a ragwelir yn y dyfodol agos o ran cyflenwi, e.e. McCloud, ac ati.

Trafodwyd cyflawniad holl reolwyr y Gronfa yn ogystal ag Adroddiad Cynnydd Partneriaeth Pensiynau Cymru.

Yn dilyn trafodaeth, **CYTUNWYD** cydnabod yr wybodaeth wedi'i diweddaru.

## 30 MONITRO RISG

Cafodd Aelodau'r Bwrdd wybodaeth am asesiad o'r risgiau sy'n gysylltiedig â Chronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf, ac amlinelliad o'r mesurau rheoli sydd mewn grym.

Ar ôl trafod, **PENDERFYNODD** y Bwrdd nodi'r risgiau cyfredol sy'n gysylltiedig â Chronfa Bensiwn RhCT a'r mesurau rheoli sydd ar waith.

## 31 CYDGYFRANNU CYMRU GYFAN

Rhoddodd yr Uwch Gyfrifydd - Pensiynau a Rheoli'r Trysorlys yr wybodaeth ddiweddaraf am hynt Partneriaeth Pensiwn Cymru i'r Bwrdd.

Cafodd Aelodau'r Bwrdd eu cyfeirio at ddolen Partneriaeth Pensiwn Cymru a thaflen a gafodd ei darllen yn uchel i'r Bwrdd. Rhoddodd y Cadeirydd wybodaeth gefndirol i'r Bwrdd. Cytunwyd y byddai'r papur ar risg yn cael ei ddosbarthu i'r Aelodau pan fyddai'n dod i law. Dywedodd y Cadeirydd fod cyfarfod ar y 26$^{ain}$ (mis heb ei nodi - nodyn gan y

Cyfieithydd) gyda Partneriaeth Pensiwn Cymru a bydd y papur ar risg wedi dod i law erbyn hynny. Nodwyd bod Cadeirydd y Pwyllgor Pensiynau wedi cael gwybodaeth lawn am y risgiau cysylltiedig.

Ar ôl trafod, **PENDERFYNWYD** nodi'r diweddariad mewn perthynas â Phartneriaeth Pensiwn Cymru.

## 32 FFRAMWAITH GWYBODAETH A DEALLTWRIAETH

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Pensiynau, Caffael a Thrafodion Aelodau'r Bwrdd at yr hyfforddiant a wnaed hyd yma gan y Bwrdd.

Cytunodd y Bwrdd i anfon rhestr o unrhyw ofynion hyfforddi at y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, ac ychwanegu at y rhestr yn rheolaidd.

## 33 LLYWODRAETHU – DIWEDDARIAD O RAN COVID-19

Rhoddwyd sicrwydd i'r Bwrdd ynghylch y trefniadau llywodraethu ac unrhyw wersi a ddysgwyd o ganlyniad i amgylchiadau
Amgylchiadau

Cafodd Aelodau'r Bwrdd wybod bod Gwasanaeth Pensiynau RhCT wedi mabwysiadu dull hybrid a bod staff wrthi'n gweithio yn y swyddfa 2 ddiwrnod yr wythnos. Nodwyd bod yr holl hyfforddiant hefyd wyneb yn wyneb.

Ar ôl trafod, PENDERFYNODD yr Aelodau nodi'r diweddariad.

## 34 MATERION DEDDFWRIAETHOL A GWEINYDDOL

- Y diweddaraf am y gwasanaeth, gan gynnwys McCloud

Dywedwyd wrth Aelodau'r Bwrdd y bydd diweddariadau McCloud yn parhau, a bydd rhagor o geisiadau ffurfiol am ddiweddariadau yn ystod Blwyddyn nesaf y Cyngor

- Trosglwyddo Pensiwn a Sgamiau

Dywedwyd wrth Aelodau'r Bwrdd fod y canllawiau ar sgamiau pensiwn wedi'u cyhoeddi. A hwythau'n Fwrdd Pensiwn, cawson nhw eu hatgoffa fod cyfrifoldeb gennyn ni i gyd i ddeall ein rhwymedigaethau yn hyn o beth. Cafwyd cyflwyniad i'r Aelodau a oedd yn dangos y rheoliadau newydd

## 35 LLYWODRAETHU AMGYLCHEDDOL, CYMDEITHASOL A CORFFORAETHOL

Doedd dim diweddariadau i'w hadrodd.

## 36 UNRHYW FATERION ERAILL

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth ddiweddariad i'r Bwrdd ar ddatblygiadau'r dangosfwrdd, gan ddweud bod y gwaith yn mynd yn rhagddo'n llwyddiannus. Cafodd y Bwrdd eu hatgoffa hefyd am achlysuron hyfforddi sydd i ddod.

**Daeth y cyfarfod i ben am 1.18pm**

**Yr Athro H. COOMBS**
**CADEIRYDD.**